



Polisi Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth (Gan gynnwys Hunan-esgeulustod/Celcio)

BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Fersiwn	Dyddiad Addasu	Perchennog	Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
V1	07/10/2022	Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru	07/10/2021	07/10/2023



Enw'r Polisi / Gweithdrefn / Canllawiau	Polisi Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth (Gan gynnwys Hunan- esgeulustod/Celcio)
Cyfnod Ymgynghori	
Dyddiad Cyhoeddi	
Dyddiad Adolygu	

Lledaenu/ Gweithredu

Gofynnir i asiantaethau ymgymryd â'r canlynol er mwyn sicrhau bod y Polisi/Gweithdrefn/Canllawiau hyn yn cael eu gweithredu:

MAWWSB	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod ar wefan MAWWSB yn yr adran bolisi • Anfon at Asiantaethau Partner i'w lledaenu • Lledaenu i arweinyddwr hyfforddi mewn asiantaethau partner i'w cynnwys mewn hyfforddiant fel sy'n briodol • Diweddarau hyfforddiant perthnasol i adlewyrchu'r Polisi/Gweithdrefn/Canllawiau
Pob Asiantaeth Bartner	<ul style="list-style-type: none"> • Lledaenu'r Polisi/Gweithdrefn/Canllawiau i bob Arweinydd Gwasanaeth/Pennaeth Gwasanaeth/Arweinydd Diogelu/staff trwy sianeli cyfathrebu priodol e.e. LOGs • Gosod o fewn ei gwefan ei hun a chynnwys dolen i Wefan MAWWSB https://www.cysur.wales/ • Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau mewnol i adlewyrchu'r Polisi/Gweithdrefn/Canllawiau fel sy'n briodol. • Diweddarau hyfforddiant mewnol i adlewyrchu'r broses fel sy'n briodol.

Sicrwydd

Gofynnir i asiantaethau ymgymryd â'r canlynol er mwyn rhoi sicrwydd i MAWWSB o ran lledaenu a gweithredu'r polisi hwn:

MAWWSB	<ul style="list-style-type: none"> • Ceisio sicrwydd gan Asiantaethau Partner bod y gweithredu wedi digwydd
---------------	--

Asiantaethau Partner	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi sicrwydd i MAWWSB bod y gweithredu uchod wedi'i gwblhau
---------------------------------	--

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
1.1 Safbwyntiau amlasiantaethol	4
1.2 Canllawiau	5
1.3 Hunan-esgeulustod a diogelu	5
1.4 Goblygiadau cyfreithiol	5
1.5 Hunan-esgeulustod ac amddiffyn plant	6
2 Hunan-Esgeulustod	6
2.1 Dangosyddion hunan-esgeulustod	7
2.2 Achosion hunan-esgeulustod	8
2.3 Celcio	8
2.4 Risg tân ac opsiynau i weithwyr proffesiynol	10
3 Canllawiau i weithwyr proffesiynol	11
3.1 Gweithio gyda phobl sy'n hunan-esgeuluso	11
3.2 Asesu risg	13
3.3 Ymyriadau cyfreithiol	16
3.4 Cymorth tai	16
4 Galluedd Meddyliol, Hunan-Esgeulustod a Chelcio	17
4.1 Asesu galluedd	17
4.2 Cyswllt cychwynnol	21
4.3 Eiriolaeth a chefnogaeth	21
4.4 Sut alla i ymyrryd mewn achosion o ymddygiad risg uchel/hunan-esgeulustod/celcio?	21
4.5 Panel Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth	23
5 Cyswllt	23
Atodiad 1 - Fframweithiau cyfreithiol	24
Atodiad 2 – Deddfwriaeth Allweddol (Cymru)	27
Atodiad 3 – Siart Llif Ymddygiad Risg Uchel	29

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi canllawiau a pholisi ar gyfer ymateb i achosion o ymddygiad risg uchel gan gynnwys hunan-esgeuluso a chelcio yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Gall hwn fod yn faes anodd ar gyfer ymyrraeth gan fod materion galluedd a dewis o ran ffordd o fyw yn aml yn gysylltiedig, sy'n cynnwys dyfarniadau unigol ynghylch yr hyn sy'n ffordd dderbyniol o fyw a graddfa'r risgiau i'r hunan. Hyd yn oed mewn achosion lle mae'n ymddangos y gallai'r risg i'r unigolyn fod yn sylweddol, efallai na fydd unrhyw sail gyfreithiol glir i ymyrryd. Bydd llawer o benderfyniadau'n dibynnu a oes gan yr unigolyn dan sylw y galluedd i wneud dewis gwybodus ynghylch sut mae'n byw a'r risgiau y mae'n agored iddynt. Nid tasg hawdd yw asesu galluedd unigolyn sy'n gwrthsefyll ymyrraeth, neu'n amheus ohono. Fodd bynnag, gall y risgiau i unigolion fod yn uchel, gyda rhai achosion o hunan-esgeulustod yn arwain at farwolaeth yr unigolyn.

Mae hunan-esgeulustod wedi ymddangos mewn sawl Adolygiad Ymarfer Oedolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, gan felly dynnu sylw at gymhlethdod ymarfer gydag oedolion sy'n dangos ymddygiadau Risg Uchel, yn enwedig pan fo rheswm i amau eu galluedd meddyliol.

Mae'r achosion niferus lle mae Byrddau Diogelu Oedolion wedi teimlo ei bod yn angenrheidiol ymchwilio i ganlyniadau achosion oedolion sy'n hunan-esgeuluso, a'r ffaith nad yw hunan-esgeulustod wedi'i gynnwys yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 na'i ganllawiau statudol cysylltiedig wedi ysgogi datblygiad Polisi Ymddygiad Risg Uchel Canolbarth a Gorllewin Cymru (gan gynnwys hunan-esgeulustod/Celcio).

Dylai asiantaethau ac ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r beirniadaethau a fynegir gan Lysoedd Crwneriaid pan fydd pobl y gwyddys eu bod mewn perygl o hunan-esgeulustod yn cael eu 'gadael' gan wasanaethau yn dilyn asesiad arwynebol o'u galluedd.

1.1 Safbwyntiau amlasiantaethol

Dyluniwyd y ddogfen hon i fod yn ganllaw amlasiantaethol i ymarferwyr sy'n gweithio gydag unigolion sy'n arddangos ymddygiadau risg uchel gan gynnwys hunan-esgeulustod a chelcio. Cydnabyddir mai asiantaethau tai, cymunedol a gwirfoddol yn aml yw'r cyntaf i bryderu am unigolion risg uchel, ac weithiau yr asiantaethau hyn sydd yn y sefyllfa orau i ffurfio perthnasoedd anfygythiol â phobl dros amser mewn ymdrech i'w perswadio i dderbyn help. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi rôl bwysig gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol a all helpu i adeiladu darlun llawnach ac i gynllunio ffordd ymlaen.

1.2 Canllawiau

Mae'r ddogfen yn nodi dangosyddion ymddygiadau risg uchel a rôl ymarferwyr ac asiantaethau sy'n gweithio gydag unigolion risg uchel. Mae'n nodi pwysigrwydd asesiadau da o alluedd oherwydd yn aml gall pobl ymddangos yn y lle cyntaf eu bod yn gwneud dewis gyda galluedd wrth iddynt wrthod cymorth. Fodd bynnag, gall asesiad manylach, os gellir cyflawni hyn, ddangos bod nam ar broses y person o wneud penderfyniadau; er enghraifft, o ganlyniad i gamweithrediad gweithredol, datblygu dementia neu gyflyrau iechyd meddwl eraill <https://www.headway.org.uk/about-brain-injury/individuals/effects-of-brain-injury/executive-dysfunction/>

1.3 Hunan-esgeulustod a diogelu

Nid yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu diffiniad o esgeulustod ac nid yw canllawiau statudol yn eglur o ran ble na sut y gellir neu y dylid rheoli pryderon ynghylch ymddygiadau risg uchel gan gynnwys hunan-esgeulustod neu gelcio. Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gwneud y penderfyniad i gydnabod y pryderon hyn fel rhai sy'n cwrdd â'r diffiniad o esgeulustod at ddibenion diogelu, ac yn debyg i Awdurdodau Lleol yn Lloegr mae wedi cyflwyno fframwaith polisi ac ymarfer amlasiantaethol penodol ar gyfer rheoli pryderon o'r fath pan fyddant yn cyrraedd pwynt o ddifrifoldeb sylweddol. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Weithdrefn Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth (Gan gynnwys Hunan-esgeulustod/celcio), sy'n cynnwys y Panel Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth (MAHRBP) fel llwybr i ymarferwyr uwchgyfeirio achosion o bryder arwyddocaol.

Asesiad o Anghenion Gofal a Chefnogaeth

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynnig asesiad i unigolyn lle mae'n ymddangos y gallai fod gan yr unigolyn hwnnw anghenion gofal a chefnogaeth. Pwrpas yr asesiad yw sefydlu a oes gan yr unigolyn anghenion gofal a chefnogaeth, ac os felly, beth yw'r anghenion hynny. Pan fydd rhywun yn hunan-esgeuluso neu'n ymddwyn mewn ffyrdd risg uchel eraill, gall hyn ddangos bod gan yr unigolyn anghenion gofal a chefnogaeth, ac felly dylid ystyried y ddyletswydd i asesu'r unigolyn hwnnw.

1.4 Goblygiadau cyfreithiol

Mae'r ddogfen yn nodi rhai o'r seiliau cyfreithiol dros ymyrraeth ac ar gyfer rhannu data a gwybodaeth.

Mae'n cynnwys cyfrifoldebau o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a phwerau eraill i ymyrryd sydd â'u gwreiddiau mewn gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd. Mae'r ddogfen yn amlygu'r ffaith nad oes un darn o ddeddfwriaeth sy'n darparu datrysiad yn

hawdd ym mhob achos, a bod angen gofal dyladwy wrth ystyried cyfyngu ymreolaeth a hawl unigolyn i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol. Fodd bynnag, mae'r hawl hon yn hawl amodol a rhaid ei chydbwyso yn erbyn dyletswydd awdurdod cyhoeddus i hyrwyddo hawliau pobl yn gadarnhaol ac i ystyried yr egwyddorion sy'n rhedeg trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ni ddylai ystyriaeth o Erthygl 8, parch at fywyd preifat a theuluol hefyd beidio â chyfyngu ar ystyriaeth o Erthygl 2, yr Hawl i Fyw. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yn rhaid i unrhyw gyfyngiad ar Erthygl 8 fod yn unol â'r gyfraith ac yn angenrheidiol ac yn gymesur. Rhoddir arweiniad pellach ar rwymedïau cyfreithiol yn Atodiad 1.

1.5 Hunan-esgeulustod ac amddiffyn plant

Mae'r polisi hwn yn pwysleisio'r angen i ystyried lles unrhyw blant a allai gael eu heffeithio gan faterion ymddygiad risg uchel gan oedolyn, a rhaid i bob sefydliad gymryd agwedd 'Ystyried y Teulu' yn hyn o beth. O dan ddeddfwriaeth plant mae fframwaith llawer cliriach ar gyfer ymyrraeth os yw'n ymddangos bod plentyn yn dioddef niwed, a rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol Oedolion weithio'n agos gyda thimau asesu plant ac amddiffyn plant mewn achosion o'r fath. Os yw plentyn yn cael ei ystyried mewn Perygl, rhaid i adroddiad diogelu fynd at Wasanaethau Plant yn yr awdurdod lleol.

2 Hunan-Esgeulustod

Ni ddylai hunan-esgeulustod arwain at ymagweddau beirniadol at safonau glendid neu daclusrwydd rhywun arall. Bydd gan bawb werthoedd a lefelau cysur gwahanol. Mae hunan-esgeulustod yn ymwneud â pherson y mae ei allu i reoli ei amgylchoedd, ei ofal personol, ei gyllid a/neu ei sgiliau byw bob dydd sylfaenol yn cael ei gyfaddawdu gymaint nes bod hyn yn bygwth ei iechyd a'i ddiogelwch yn uniongyrchol neu iechyd a diogelwch pobl eraill o'i gwmpas; ac yn rhesymol debygol o achosi niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol difrifol, neu golled sylweddol o asedau.

Cofiwch:

- Mae gan weithwyr proffesiynol sy'n delio â phryderon am hunan-esgeulustod a chelcio werthoedd personol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n dylanwadu arnynt, a dylai gweithwyr proffesiynol bob amser fyfyrion ar sut y gallai eu gwerthoedd eu hunain effeithio ar eu barn.
- Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n delio â phryderon am hunan-esgeulustod a chelcio ddod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng parchu ymreolaeth unigolyn a chyflawni ei ddyletswydd i amddiffyn llesiant yr unigolyn.
- Dylai gweithwyr proffesiynol fabwysiadu lefel o chwilfrydedd proffesiynol a chofio peidio â gwneud rhagdybiaethau na chymryd pethau ar eu golwg.

2.1 Dangosyddion hunan-esgeulustod

Yn aml, diffinnir hunan-esgeulustod ar draws tri pharth - esgeuluso'ch hun, esgeuluso'r amgylchedd a gwrthod derbyn cymorth.

Gall esgeuluso'ch hun gynnwys cyfuniad o:

- Hylendid gwael
- Dillad brwnt/amhriodol
- Gofal gwallt gwael
- Diffyg maeth
- Dim rhoi sylw i anghenion meddygol/iechyd, gan arwain at ganlyniadau iechyd gwael neu beryglus
- Ymddygiadau ffordd o fyw sy'n arwain at niwed
- Camddefnyddio alcohol/sylweddau
- Ynysu cymdeithasol
- Sefyllfaoedd lle mae tystiolaeth bod plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol oherwydd hunan-esgeulustod gan oedolyn

Gall esgeuluso'r amgylchedd gynnwys:

- Amodau aflan, blêr neu fudr sy'n creu sefyllfa beryglus a allai achosi niwed corfforol difrifol i'r unigolyn neu i eraill
- Celcio
- Risg tân (e.e. ysmygwr â symudedd cyfyngedig/celciwr)
- Cynnal a chadw gwael o safbwynt yr eiddo
- Cadw llawer o anifeiliaid anwes sy'n derbyn gofal gwael
- Fermin
- Diffyg gwresogi
- Dim dŵr rhedeg/glanweithdra
- Rheoli cyllid yn wael (e.e., biliau ddim yn cael eu talu gan arwain at dorri cyfleustodau, achosion anesboniadwy o godi arian o'r cyfrif banc/cynilion)

Daw'r uchod yn achos pryder sylweddol os bydd y person hefyd yn gwrthod ymgysylltu â gwasanaethau sy'n cynnig cymorth. Gall hyn fod oherwydd:

- Diffyg ymddiriedaeth

- Ystyried bod y cynnig o gymorth yn ymyrraeth
- Peidio â chydabod y pryder o gwbl, neu beidio â'i weld yn arwyddocaol
- Balchder
- Ddim yn dymuno derbyn y bu dirywiad yn eu gallu i ofalu am eu hunain
- Ofn beth allai ddigwydd os ydyn nhw'n ymgysylltu
- Efallai y byddant yn ystyried yr ysgogiad/rheswm dros eu hymddygiad yn bwysicach nag effaith yr hunan-esgeulustod.

2.2 Achosion hunan-esgeulustod

Gall achosion fod yn niferus ac amrywiol. Gellir gweld hunan-esgeulustod mewn pobl y mae dirywiad corfforol neu feddyliol yn golygu nad yw'r unigolyn bellach yn gallu diwallu ei holl anghenion gofal personol neu ddomestig. Gall salwch ac anhwylderau meddwl fel iselder ysbryd, seicosis, anabledd dysgu, anhwylderau sbectrwm awtistig, neu anhwylder personoliaeth, leihau gallu unigolyn i hunanofalu.

Mewn cymdeithas sy'n heneiddio, gall pobl oroesi eu ffrindiau a'u perthnasau, a dod yn fwyfwy ynysig ac unig a allai gyfrannu at iselder ysbryd a diymadferthedd. Gall tlodi a diffyg symudedd waethygu hyn, a gall yr holl ffactorau risg hyn gyfrannu at yr oedolyn yn methu â chyrchu iechyd, gofal neu gynnal ei gartref.

Gall materion balchder a/neu sgiliau sy'n dirywio o ran gallu hunanofalu hefyd chwarae rhan wrth wrthod cefnogaeth.

Mewn rhai achosion, mae esgeulustod yn digwydd pan nad yw oedolyn sy'n methu â hunanofalu ac sy'n ddibynnol ar ofalwr teulu yn derbyn y gofal sydd ei angen arno; ac mewn rhai achosion, gall y gofalwr atal cynigion asesu a chefnogi. Dylid gwneud adroddiad diogelu yn yr achosion hyn.

2.3 Celcio

Celcio yw'r anhawster parhaus i daflu neu gael gwared ag eiddo, waeth beth yw eu gwir werth. Gall yr ymddygiad gael effeithiau niweidiol - emosiynol, corfforol, cymdeithasol, ariannol a hyd yn oed cyfreithiol - i gelciwr ac aelodau o'r teulu.

I'r rhai sy'n celcio, mae maint yr eitemau a gasglwyd yn eu gwneud yn wahanol i bobl eraill. Gall eitemau cyffredin sy'n cael eu celcio gynnwys papurau newydd, cylchgronau, bagiau papur a phlastig, blychau cardbord, ffotograffau, cyflenwadau cartref, bwyd a dillad ynghyd â chasgliadau o eitemau wedi mynd yn rhemp ac yn cymryd drosodd y lle byw. Gweler hefyd yr offeryn graddio annibendod yn ôl delwedd isod.

<https://hoardingdisordersuk.org/wp-content/uploads/2014/01/clutter-image-ratings.pdf>

Celcio:

Gall celcio ddod yn rheswm i ofyn am gyfarfod Panel Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth pan:

- Mae lefel y celcio yn peri risg iechyd difrifol i'r unigolyn neu'r cymdogion.
- Mae Perygl Uchel o dân neu bla gan bryfed neu anifeiliaid.
- Mae celcio yn ymwneud â phryderon eraill ynghylch hunan-esgeulustod, fel esgeuluso iechyd corfforol, diffyg maeth digonol.
- Gall celcio fod yn gysylltiedig â dirywiad gwybyddol difrifol a diffyg galluedd i hunanofalu a gofalu am yr amgylchedd.
- Mae celcio yn bygwth tenantiaeth unigolyn ac maent mewn perygl o gael eu gwneud yn ddirgaref trwy orchmynion cau neu orchmynion adennill meddiant.

Gall ymatebion i gelcio gynnwys:

- Os oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud penderfyniadau ynghylch ceisio cymorth, yna gellir nodi atgyfeiriad, gyda'i gytundeb, am ymyrraeth iechyd meddwl.
- Gweithio gyda'r unigolyn dros amser i'w gefnogi i glirio ei eiddo. Gall gynnwys gwaith wedi'i dargedu gyda'r unigolyn ar gynllun i glirio'r eiddo yn raddol a'i gefnogi i wneud hyn.
- Galluogi'r unigolyn i ddeall yr ysgogiad y tu ôl i'w ymddygiad a dod o hyd i fecanweithiau i reoli hyn mewn ffyrdd eraill.
- Os yw'r unigolyn yn byw mewn llety ar rent, efallai y bydd angen cymorth arno i gysylltu â'r landlord os yw dan fygythiad o gael ei droi allan.
- Efallai y bydd angen cefnogaeth ar yr unigolyn i gysylltu ag adrannau amgylcheddol neu reoli plâu.
- Gyda'u cytundeb efallai y bydd angen atgyfeirio i'r Gwasanaeth Tân i gael asesiad risg tân ataliol.
- Os nad oes gan yr unigolyn alluedd o ran rheoli ei amgylchedd, yna efallai y bydd angen cefnogaeth barhaus arno gan y gwasanaethau cymdeithasol gyda hunanofal a rheoli ei drefn ddomestig.
- Felly mae asesu galluedd yn ofalus a chynnal asesiad anghenion yn bwysig er mwyn sefydlu'r ffordd orau ac ar ba sail i ymyrryd.
- Pan fydd gan berson alluedd yna mae'n bwysig gweithio gyda nhw a deall eu dymuniadau a'u teimladau. Os nad oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud penderfyniadau perthnasol efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau er budd

gorau wrth barhau i ystyried dymuniadau'r unigolyn cyn belled ag y gellir canfod y rhain (ceisiwch gyngor gan y Gwasanaethau Cymdeithasol).

Gall yr asiantaethau a allai fod yn y sefyllfa orau i gefnogi pobl sy'n hunan-esgeuluso fod yn un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- Gwasanaethau iechyd meddwl a gyrchir trwy'r meddyg teulu.
- Gwasanaethau gwirfoddol i ddarparu eiriolaeth a chefnogaeth ymarferol.
- Swyddogion cymorth tenantiaeth tai
- Gwasanaethau amgylcheddol
- Gwasanaethau tân
- Cyfranogiad gwaith cymdeithasol/asesiad anghenion a chynllunio gofal.
- Cefnogaeth ac ymyrraeth barhaus.

Efallai y bydd cyfarfod cynllunio amlasiantaethol yn ddefnyddiol i gytuno ar gynllun cymorth gyda'r unigolyn a phwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu hyn neu os nad oes gan yr unigolyn alluedd, i gytuno ar wneud penderfyniadau er budd gorau. Os rhoddwyd cynnig ar yr holl ymdrechion uchod a bod y risgiau'n parhau i fod yn uchel, gwnewch atgyfeiriad MAHRBP.

Gweler [Hoarding guidance](#) a ddatblygwyd gan MIND UK i gael mwy o wybodaeth.

2.4 Risg tân ac opsiynau i weithwyr proffesiynol

Mae'n ddigon posib y bydd pobl sy'n hunan-esgeuluso yn esgeuluso agweddau eraill ar fywyd o ddydd i ddydd fel cynnal a chadw offer. Er enghraifft, gallai diffyg archwiliadau aml gan beiriannydd hyfforddedig olygu bod boeler yn dod yn annioel. Efallai y bydd offer bob dydd fel popty/stôf yn stopio gweithio. Gall hyn arwain at fwy o arferion coginio mwy peryglus, e.e. defnyddio deunyddiau coginio gweryslla neu fflamau noeth. Mae eitemau o'r fath yn peri risg tân sylweddol, ac mae'r risg yn cael ei chwyddo os yw'n gysylltiedig ag annibendod a chelcio.

Mae socedi wedi'u gorlwytho a gwifrau wedi'u treulio (lle mae'r inswleiddiad allanol wedi treulio gan ddatgelu'r gwifrau byw) hefyd yn beryglon tân i fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae defnyddio canhwyllau yn risg tân uwch. Mae llawer o bobl yn defnyddio canhwyllau ar gyfer addurno. I bawb, gall anghofio eu diffodd neu beidio â chadw golwg arnynt (gall dalwyr canhwyllau losgi trwy'r wyneb y maent arno) arwain at danau. Fodd bynnag, os yw rhywun yn defnyddio canhwyllau oherwydd nad oes golau na thrydan yn yr eiddo, yna mae'n debygol y bydd eu defnydd o ganhwyllau yn amlach ac yn gyson. Mae hyn yn eu rhoi mewn mwy o berygl.

Mae mwy o risg i bobl sy'n celcio oherwydd bod mwy o ddeunydd yn eu cartrefi i'w losgi (a elwir yn "llwytho tân"). Yn ail, yn aml nid yw eiddo lle mae'r preswlydd yn celcio yn gwbl hygyrch sy'n ei gwneud hi'n anodd archwilio pwyntiau plwg, offer, gwifrau, y boeler a phwyntiau allweddol eraill yn rheolaidd. Gall cymdeithasau tai neu landlordiaid wneud y penderfyniad i dorri cyflenwadau trydan neu nwy i ffwrdd os yw'r person yn gwrthod caniatáu cynnal a chadw arferol neu os yw celcio yn atal mynediad. Gall hyn arwain at ddibynnu ymhellach ar ganhwyllau.

Un o'r ffactorau risg mwyaf peryglus yw ysmegu. Mae hyn yn dwysáu pan fydd yr ysmygwr yn cael gwared ar sigarêts heb eu diffodd mewn modd peryglus, fel wrth syrthio i gysgu wrth ysmegu yn y gwely neu mewn cadair freichiau. Mae'r rhai sy'n cyfuno ysmegu ag yfed alcohol neu gyffuriau hyd yn oed mewn mwy o berygl fel y mae pobl â phroblemau symudedd. Gall annibendod hefyd atal dianc o'r eiddo pe bai tân.

Gall y math o ddeunyddiau sy'n cael eu celcio, er enghraifft silindrau nwy, beri risg i gymdogion a diffoddwyr tân sy'n mynychu digwyddiad yn achos galwad tân.

Bydd llwybrau dianc sy'n cael eu peryglu yn cynyddu'r risg o anaf difrifol neu farwolaeth. Rhaid atgyfeirio i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i gael Archwiliad Diogelwch Tân. Os nad yw'r preswlydd yn cydsynio i hyn, dylid rhannu gwybodaeth o hyd fel y gall Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ei nodi gyda'i Staff Rheoli fel eiddo risg uchel.

3 Canllawiau i weithwyr proffesiynol

3.1 Gweithio gyda phobl sy'n hunan-esgeuluso

Mae wedi dod yn fwyfwy amlwg nad yw dull rheoli achos tymor byr tuag at bobl sy'n hunan-esgeuluso yn debygol o fod yn llwyddiannus.

Mae enghreifftiau achos o waith llwyddiannus gyda phobl sy'n hunan-esgeuluso yn dangos yr angen am werthoedd proffesiynol o adeiladu perthynas, ennill ymddiriedaeth, gwranddo ar bobl, asesu galluedd ar lefel gwneud penderfyniadau a gweithredu gweithredol, gan ystyried hanes yr unigolyn a pham y gallant fod wedi dechrau hunan-esgeuluso. Rhaid amrywio'r cysyniad o gyfradd prosesu achosion a chau yn gynnar wrth weithio gydag oedolion sy'n hunan-esgeuluso; mae angen i reolwyr a goruchwylwyr ystyried hyn o ran dyrannu llwyth achosion.

Mae hefyd yn amlwg o ymchwil i oedolion sy'n hunan-esgeuluso bod ymyrryd yn gynnar yn fwy effeithiol nag aros nes bod y pryderon wedi dod yn fwy difrifol ac wedi ymwreiddio. Felly, gall cadw at feini prawf cymhwysedd mewn modd rhy anhyblyg yn yr achosion hyn fod yn wrthgynhyrchiol ac arwain at ofyn am gefnogaeth fwy dwys, ymwithiol a chostus yn nes ymlaen.

Mae ymchwil yn tystio i bwysigrwydd:

- Ffocws sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ceisio sefydlu perthynas o ymddiriedaeth a chydweithrediad a all olygu bod yr unigolyn yn fwy parod i dderbyn cefnogaeth.
- Cael mewnwelediad i gefndir teuluol a gwaith gan weithwyr proffesiynol i archwilio'r cymhelliant a'r ddealltwriaeth y tu ôl i benderfyniadau i wrthod gwasanaethau.
- Peidio â derbyn gwrthodiadau arwynebol i wasanaeth, sy'n golygu bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n ymatebol i bob argyfwng yn hytrach nag ymgysylltu'n rhagweithiol â phob gwrthodiad o gefnogaeth dro ar ôl tro. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyswllt a chynnig cyfleoedd i'r unigolyn gysylltu â gwasanaethau pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny.
- Monitro anghenion sy'n newid er mwyn bod yn barod i ymateb pan fydd yr unigolyn yn cydnabod yr angen am help ac efallai'n barod i ymgysylltu.
- Sicrhau bod galluedd yn cael ei asesu a'i gofnodi'n drylwyr ar sail penderfyniad penodol ac ailasesu galluedd dros amser.
- Deall y gyfraith a chofnodi'r sail gyfreithiol ar gyfer penderfyniadau.

Gwnaeth dadansoddiad o Adolygiadau Achos Difrifol/Adolygiadau Ymarfer Oedolion blaenorol lle'r oedd hunan-esgeulustod yn digwydd rai argymhellion ar gyfer:

'dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cynnwys ymgysylltu rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol; rhoi sylw i anghenion diwylliannol, iaith a chyfathrebu; a rhoi'r lle mwyaf blaenllaw i ddymuniadau, barn, profiadau ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Pan fydd rhai yn gwrthod gwasanaeth, dylid archwilio'n llawnach yr hyn a all ymddangos yn ddewis ffordd o fyw ac o'r canlyniadau y mae'r person yn dymuno eu cyflawni. Dylid cynnal cyswllt hefyd, yn hytrach na chau'r achos, fel y gellir adeiladu ymddiriedaeth a dilyn newidiadau mewn cymhelliant ac i gydnabod yr angen am help ... hefyd ystyried cartref, teulu a gofalwyr yr unigolyn, gydag argymhellion bod yn rhaid i ofalwyr beidio â chael eu hesgeuluso mewn asesiadau a chynllunio gofal, ac y dylid archwilio'r ddeinameg rhwng aelodau'r teulu oherwydd gallant fod yn sail i'r hunan-esgeulustod a dylanwadu'n ddwys ar broses gwneud penderfyniadau unigolyn.'

Mae'r Athro Michael Preston-Shoot yn siarad am y dull 'Care Frontational' tuag at bobl sy'n hunan-esgeuluso - gan eu herio'n sensitif i ystyried goblygiadau ymddygiad hunan-esgeuluso a beth all y canlyniadau fod. Mae hefyd yn bwysig symud o sefyllfa o 'dywedwch wrthyf' i 'dangoswch i mi'. Mae hyn oherwydd y bydd llawer o bobl sy'n hunan-esgeuluso yn dweud y peth iawn ond efallai na allant roi hyn ar waith. Mae hyn yn symud y rhyngweithio o 'dywedwch wrthyf beth rydych yn mynd i'w fwyta heddiw?' i 'dangoswch imi sut y byddwch yn prynu'r bwyd a'i goginio.'

Wrth wneud atgyfeiriadau neu fynd ar drywydd pryderon, y nod yw casglu gwybodaeth i lywio asesiad o angen a ddylai gynnwys:

- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni
- Manylion Meddyg Teulu, Nyrs Ardal/Ymwelydd Iechyd
- A oes cyfranogiad asiantaeth allanol
- Manylion cyfranogiad/cysylltiadau teuluol
- Gwybodaeth am unrhyw gysylltiadau cymdeithasol neu deuluol
- A yw'r oedolyn yn byw ar ei ben ei hun
- A yw'r unigolyn yn gwybod bod atgyfeiriad yn cael ei wneud ac a yw wedi rhoi caniatâd
- Natur y pryder a barn yr unigolyn am hyn cyn belled ag y gellir darganfod hyn
- P'un a fu problem barhaus neu ddirywiad sydyn yn llesiant yr unigolyn
- A oes unrhyw blant mewn perygl o niwed oherwydd ymddygiad yr oedolyn

Cyhoeddodd Ymchwil ar Waith i Oedolion (RiPFA) ganllawiau 'Sut allwn ni gefnogi pobl sy'n hunan-esgeuluso' yn 2015, sy'n nodi 3 cham allweddol:

1. Mae 'adnabod' yr unigolyn, ei hanes unigryw ac arwyddocâd ei hunan esgeulustod yn ategu'r adnoddau gwybodaeth proffesiynol y mae ymarferwyr yn dod â nhw i'w gwaith.
2. Cyflawnir dealltwriaeth o'r fath trwy ffyrdd o 'fod': rhinweddau personol a phroffesiynol parch, empathi, gonestrwydd, amynedd, dibynadwyedd a gofal - y gallu i 'fod yn bresennol' ochr yn ochr â'r person tra bo ymddiriedaeth yn cael ei meithrin.
3. Yn olaf, mae'n bwysig 'gwneud' ymarfer proffesiynol mewn ffordd sy'n cyfuno dulliau ymarferol ac anuniongyrchol: ceisio'r elfen fach o gytundeb, gwneud pethau - pethau ymarferol yn aml - a fydd yn gwneud gwahaniaeth bach wrth drafod y newidiadau mwy, a bod yn glir ynghylch pryd y bydd angen ymyrraeth orfodedig.

3.2 Asesu risg

Cyfrifoldeb yr holl staff dan sylw, fel sy'n briodol i'w proffesiwn a'u sefydliad, yw cynnal a chofnodi asesiad risg ac adolygu a rhannu hyn pan fo hynny'n briodol.

Dylai hyn gynnwys casglu gwybodaeth:

- A yw'r person yn gwrthod triniaeth feddygol/meddyginiaeth; a yw hyn yn peryglu bywyd?

- A oes gwres, glanweithdra, dŵr digonol yn y cartref.
- P'un a oes arwyddion bod y person yn dioddef o ddiffyg maeth e.e., gall fod yn arwyddion o erfyn am fwyd neu sgwrio mewn biniau neu'n amlwg yn denau.
- Cyflwr yr amgylchedd - cyflwr gwael, fermin fel llygod mawr neu bryfed neu lawer o anifeiliaid anwes.
- A oes tystiolaeth o gelcio/anhwylder gorfodaeth obsesiynol
- A oes arogl nwy
- A oes pryderon difrifol ynghylch lefel hylendid personol neu'r amgylchedd
- P'un a yw'r person yn dioddef o salwch, anaf neu afiechyd heb ei drin, efallai na fydd yn gallu gofalu amdano'i hun yn gorfforol neu fod yn isel ei ysbryd.
- P'un a oes gan yr oedolyn broblemau difrifol gyda'r cof neu wneud penderfyniadau, arwyddion o ddryswch neu ddementia sy'n golygu na allant ofalu amdanynt eu hunain
- A oes risgiau cysylltiedig i blant
- Ceisio sefydlu hanes eu bywyd gyda'r oedolyn i helpu i ddeall eu sefyllfa bresennol gan gynnwys unrhyw golledion neu drawma mawr.

Cyfeiriwch at y matrices risg isod i helpu i fesur lefel y risg.

Ymhob achos, ystyriwch:

A oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud penderfyniadau mewn perthynas â materion fel darparu gofal/tai?

A oes gan y person salwch meddwl wedi'i ddiagnosio?

A oes gan yr unigolyn gefnogaeth gan deulu neu ffrindiau?

A yw'r person yn derbyn gofal a thriniaeth?

A oes gan yr unigolyn fewnwelediad i'r problemau y mae'n eu hwynebu?

Ymhob achos dylai'r holl weithwyr fod wedi ceisio ymgysylltu â'r unigolyn, datblygu perthynas, gan gefnogi'r unigolyn i fynd i'r afael â phryderon ac ymgysylltu â chefnogaeth.

Risg isel	Risg cymedrol	Risg uchel
<p>Mae'r person yn derbyn cefnogaeth a gwasanaethau</p> <p>Mae gofal iechyd yn cael sylw</p> <p>Nid yw'r person yn colli pwysau Person yn cyrchu gwasanaethau i wella llesiant. Nid oes unrhyw faterion ynghylch gofalwyr</p>	<p>Gall y dangosyddion isod hefyd awgrymu risg isel. Mae pob un yn gyd-destunol, gan dibynnu ar amgylchiadau unigol gallant ysgogi pryder yn y categori Risg Uchel. Dylid rholi ystyriaeth i'r cyd-destun, os yw gwybodaeth yn hysbys am, er enghraifft, achos colli pwysau ac a yw gweithwyr proffesiynol eraill yn cymryd rhan.</p>	<p>Lle codwyd pryderon cymedrol ac er gwaethaf yr holl ymdrechion maent yn parhau a/neu'n cynyddu.</p> <p>Mae'r unigolyn yn gwrthod ymgysylltu â'r gwasanaethau angenrheidiol a lle mae effaith andwyol ar ei iechyd a'i lesiant a lle mae tystiolaeth o geisio ymgysylltu a gweithio gyda'r unigolyn</p>

<p>Mae gan yr unigolyn fynediad at weithgareddau cymdeithasol a chymunedol Gall yr unigolyn gyfrannu at weithgareddau byw bob dydd Mae hylendid personol yn dda Gall y dangosyddion isod hefyd awgrymu risg isel. Mae pob un yn gyd-destunol, gan dibynnu ar amgylchiadau unigol, gallant ysgogi pryder yn y categori risg cymedrol. Mae mynediad at wasanaethau cymorth yn gyfyngedig ond nid oes unrhyw ffactorau eraill sy'n peri pryder Mae gofal iechyd a phresenoldeb mewn apwyntiadau yn ysbeidiol ond mae tystiolaeth o effaith gyfyngedig neu ddim effaith ar iechyd/llesiant ac mae gan yr unigolyn y galluedd i wneud y penderfyniad Mae'r person o bwysau isel Effeithir yn rhannol ar lesiant person Mae gan y person ryngweithio cymdeithasol cyfyngedig Nid yw gofalwyr yn bresennol Mae gan y person fynediad cyfyngedig i weithgareddau cymdeithasol neu gymunedol Mae gallu person i gyfrannu tuag at weithgareddau byw o ddydd i ddydd wedi cael ei effeithio</p> <p>Mae hylendid personol yn dod yn broblem</p>	<p>Mae'r person yn gwrthod ymgysylltu â'r gwasanaethau angenrheidiol, mae ganddo alluedd ac mae tystiolaeth gyfyngedig neu ddim tystiolaeth bod eu hiechyd/llesiant yn cael eu heffeithio'n andwyol Mae gofal iechyd yn wael ac mae yna ddirywiad mewn iechyd Mae pwysau'n gostwng Effeithir ar lesiant yn ddyddiol Mae'r person wedi'i ynysu oddi wrth deulu a ffrindiau Mae gofal yn cael ei atal neu ei wrthod Nid yw'r unigolyn yn ymgysylltu â gweithgareddau cymdeithasol neu gymunedol ac mae hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant yr unigolyn Nid yw'r person yn ymdopi â gweithgareddau byw o ddydd i ddydd Mae hylendid yn wael ac yn achosi problemau croen Gwrthodwyd neu ni ddefnyddir cymhorthion ac addasiadau Mae gofalwyr yn mynegi pryderon Gorfodaeth bosibl gan ofalwyr anffurfiol</p>	<p>Mae gofal iechyd yn wael ac mae iechyd yn dirywio ac nid oes achos amlwg a/neu weithwyr proffesiynol yn gysylltiedig Mae pwysau'n gostwng Effeithir ar lesiant yn ddyddiol ac nid oes unrhyw achos amlwg a/neu weithwyr proffesiynol yn gysylltiedig. Mae'r person wedi'i ynysu oddi wrth deulu a ffrindiau, efallai na fydd hwn yn ddewis ffordd o fyw Mae gofal yn cael ei atal neu ei wrthod er gwaethaf ymdrechion i ymgysylltu â'r person Nid yw'r unigolyn yn ymgysylltu â gweithgareddau cymdeithasol neu gymunedol ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant yr unigolyn Nid yw'r person yn ymdopi â gweithgareddau byw o ddydd i ddydd er gwaethaf bod cynllun ar waith i gefnogi'r unigolyn gyda'r rhain Mae hylendid yn wael ac yn achosi problemau croen er gwaethaf ymdrechion i weithio gyda'r unigolyn i wella hyn Mae cymhorthion ac addasiadau wedi'u gwrthod neu ni chawsant fynediad atynt er gwaethaf ymdrechion i ymgysylltu â'r unigolyn Mae gofalwyr yn mynegi pryderon Gorfodaeth bosibl gan ofalwyr anffurfiol</p>
<p>Ymateb a chyfrifoldebau</p>		

Ymateb asiantaeth sengl	Yn aml, rheolir y risg leiaf posibl trwy ymateb gan un asiantaeth. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid ymgynghori ag asiantaethau eraill a dogfennu hynny. Dylid cadw dogfennaeth glir o'r cynlluniau a'r penderfyniadau a wnaed. Dylid cadw cronolegau yn tystio gwelliant a/neu ddirywiad. Mewn rhai achosion, gall barn broffesiynol arwain at ymateb amlasiantaethol, h.y. MDT (gyda chydsyniad yr unigolyn) er mwyn lleihau risg.	Dylai Risg Uchel gynnwys ymateb amlasiantaethol. Dylid cadw dogfennaeth glir o'r cynlluniau a'r penderfyniadau a wnaed. Dylid cadw cronolegau yn tystio gwelliant a/neu ddirywiad. Dylid ystyried a yw'r trothwy diogelu wedi'i fodloni. Gall dyfarniad proffesiynol arwain at atgyfeiriad i ddiogelu ar gyfer cyfarfod MAHRBP.
Dylai achosion Risg Uchel symud ymlaen i atgyfeiriad Cyfarfod Panel Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth. Gall systemau eraill ymdrin â phryderon nad oes angen eu cyfeirio at gyfarfod Panel Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth neu Ddiogelu Oedolion e.e. Ymyrraeth iechyd/meddygon teulu, ymgysylltu yn y gymuned, cwnsela, datblygu perthynas. Mae'n debygol mai dim ond pryderon yn y Risg Uchel y mae angen rhoi gwybod amdanynt – Defnyddiwch farn broffesiynol.		

3.3 Ymyriadau cyfreithiol

Ym mhob amgylchiad, dylid gweithio gyda phobl ag anghenion gofal a chymorth mewn ffordd sydd leiaf ymwithiol a chyfyngol ac sy'n cynnal dewis, rheolaeth ac urddas.

Fodd bynnag, gall methu â gweithredu i gefnogi neu amddiffyn pobl sydd mewn perygl o niwed hefyd fod yn esgeulus ac yn fethiant i warchod eu hurddas a'u llesiant. Mae bob amser yn well sicrhau cytundeb unigolyn a dim ond ystyried mesurau mwy cyfyngol trwy rwymedïau cyfreithiol pan fydd hyn wedi methu neu os yw'r sefyllfa'n argyfwng.

Dylai fod gan bob gweithiwr proffesiynol ddealltwriaeth dda o'r ddeddfwriaeth berthnasol a dylent yn anad dim weithio gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007.

Efallai y bydd angen i ymarferwyr ystyried, a lle bo hynny'n briodol, ceisio cyngor mewn perthynas â phwerau'r [Llys Gwarchod](#), a [Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus](#) ac [Awdurdodaeth Cynhenid yr Uchel Lys](#).

3.4 Cymorth tai

Gall Gwasanaethau Landlordiaid a Chymdeithasau Tai/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig chwarae rhan bwysig wrth gefnogi pobl sy'n hunan-esgeuluso a/neu'n celcio.

Gall swyddogion cymorth tenantiaeth adeiladu perthnasoedd â'u tenantiaid gyda'r nod o'u cefnogi i osgoi sefyllfa rhag gwaethygu. Weithiau mae cyfuniad o gynnig cefnogaeth ochr yn ochr â negeseuon clir am yr hyn a all ddigwydd o bosibl fel colli tenantiaeth/cartref, colli eu cartref a dod yn ddigartref yn enghraifft o hyn. Gall realiti sefyllfaoedd o'r fath fod yn effeithiol wrth annog yr unigolyn i ymgysylltu â chefnogaeth.

4 Galluedd Meddyliol, Hunan-Esgeulustod a Chelcio

Pan fydd oedolyn yn gwrthod ymgysylltu ac mae'n ymddangos ei fod mewn perygl difrifol o niwed, mae asesiad galluedd manwl a phenodol o sgiliau gwneud penderfyniadau a gweithredu gweithredol yn hanfodol wrth helpu i benderfynu ar y ffordd orau i ymyrryd. Dylid ystyried hefyd a yw'r unigolyn o bosibl yn destun gorfodaeth a rheolaeth ac, a ddylid dilyn llwybrau diogelu neu gam-drin domestig eraill (gweler llwybr VAWDASV rhanbarthol).

Nid digwyddiad unigryw yw asesu galluedd o dan yr amgylchiadau hyn ond cyfres o asesiadau dro ar ôl tro i adeiladu dealltwriaeth o allu unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus ac i gyflawni'r penderfyniadau hyn. Os yw'r unigolyn yn gwrthod cyswllt cychwynnol, mae'n bwysig peidio â chau'r achos tra bydd ansicrwydd ynghylch lefel y risg a galluedd yr unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus am ei amgylchiadau a'i angen am gefnogaeth. (gweler adran 4 - Galluedd Meddyliol).

4.1 Asesu galluedd

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn nodi na all person wneud penderfyniad drosto'i hun os nad yw'n gallu:

- a) deall y wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad,
- b) cadw'r wybodaeth honno.
- c) defnyddio neu bwyso a mesur y wybodaeth honno fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad, neu
- d) cyfleu ei benderfyniad (p'un ai trwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu unrhyw fodd arall).
- e) Ni ddylid ystyried bod person yn methu â deall y wybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniad os yw'n gallu deall esboniad ohono a roddwyd iddo mewn ffordd sy'n briodol i'w amgylchiadau (gan ddefnyddio iaith syml, cymhorthion gweledol neu unrhyw fodd arall).

Mae sefydlu galluedd unigolyn i wneud penderfyniad mewn perthynas â'i hunan-esgeulustod a'i gelcio yn aml yn ymarfer heriol i lawer o weithwyr proffesiynol. Weithiau mae gofyniad y Ddeddf Galluedd Meddyliol (MCA) i ragdybio galluedd yn cael ei ddefnyddio gan ymarferydd sy'n wynebu rhywun sy'n hunan-esgeuluso ac yn gwrthod ymgysylltu, i ddod i gasgliad arwynebol bod gan yr unigolyn alluedd; yn y

cyfamser gall y dystiolaeth gefnogol o raddau'r niwed sy'n digwydd ddangos bod angen edrych yn fanylach.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn glir ar y rhagdybiaeth o alluedd a hawliau unigolion i wneud dewisiadau annoeth neu ecsentrig; fodd bynnag, nid yw'n hawdd asesu galluedd rhywun sy'n esgeuluso ei hun yn ddifrifol i'r graddau fod bygythiad i fywyd a llesiant ac sydd hefyd yn gwrthod ymgysylltu. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr unigolyn yn gallu cymryd rhan lawn mewn unrhyw asesiad o alluedd gan gynnwys defnyddio dehonglwyr a/neu gymhorthion cyfathrebu eraill, gan gadw at ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

Dywed Cod Ymarfer yr MCA, os yw rhywun yn gwneud penderfyniadau annoeth dro ar ôl tro sy'n eu rhoi mewn perygl sylweddol o niwed neu ecsbloetio neu'n gwneud penderfyniad annoeth penodol sy'n amlwg yn afresymol neu'n anarferol i'r person, er efallai na fydd hyn o reidrwydd yn golygu bod y person yn brin o alluedd, efallai y bydd angen ymchwilio ymhellach, gan ystyried penderfyniadau a dewisiadau'r unigolyn yn y gorffennol. Er enghraifft, a ydyn nhw wedi datblygu cyflwr neu anhwylder meddygol sy'n effeithio ar eu galluedd i wneud penderfyniadau penodol? A yw'n hawdd dylanwadu arnynt gan bwysau gormodol? Neu a oes angen mwy o wybodaeth arnynt i'w helpu i ddeall canlyniadau'r penderfyniad y maent yn ei wneud?

Mewn achosion o hunan-esgeulustod, mae'n hanfodol bod galluedd unigolyn i wneud dewisiadau gwybodus am ei sefyllfa yn cael ei asesu'n ofalus. Mae galluedd yn briodoledd cymhleth, sy'n cynnwys nid yn unig y gallu i ddeall canlyniadau penderfyniad ond hefyd y gallu i gyflawni'r penderfyniad.

Heb asesiad mwy manwl o alluedd, mae risg na fydd absenoldeb gweithrediad gweithredol yn cael ei gydnabod, ac efallai y bernir bod yr unigolyn yn gwneud dewis â galluedd pan nad yw mewn gwirionedd yn gallu cyflawni'r camau angenrheidiol i gadw eu hunain yn ddiogel.

O ran pobl sy'n celcio, gall fod anhwylderau iechyd meddwl sylfaenol fel anhwylderau obsesiynol-gymhellol sy'n effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniadau o ran eu celcio. Os na chânt eu cynnal yn briodol, gall asesiadau galluedd anwybyddu natur benodol y galluedd i benderfynu, gyda'r canlyniad y rhagdybir y galluedd ymddangosiadol i wneud penderfyniadau syml mewn perthynas â rhai mwy cymhleth.

Mae asesiadau galluedd yn benodol i amser ar achos dan sylw. Mae hyn yn golygu na ddylid defnyddio asesu galluedd unigolyn i benderfynu, er enghraifft, a ddylid caniatáu i weithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall ddod i mewn i'w gartref er mwyn cynnal asesiad i ddod i'r casgliad hefyd am allu'r unigolyn i goginio pryd o fwyd, mynd i siopa, cynllunio ymlaen llaw ar gyfer apwyntiadau iechyd, i reoli trefniadau ariannol. Mae'r rhain i gyd yn ystyriaethau ar wahân; felly, gall fod gan berson alluedd i wneud penderfyniadau mewn perthynas ag un mater ond nid y llall. Mewn rhai achosion, gall galluedd rhywun i wybod beth sydd angen iddo ei wneud

gael ei rwystro gan y boen a'r ymdrech sy'n ofynnol i wneud hynny, neu oherwydd iselder difrifol neu falchder sy'n eu hatal wedyn rhag cydnabod bod angen help. Efallai na fydd gan berson y galluedd i wneud penderfyniadau yn y bore ond nid yn y prynhawn pan fydd ar ei orau.

Cynnal asesiad galluedd

Os oes gan yr ymarferydd â phryderon achos rhesymol i gredu bod nam ar allu gwneud penderfyniadau'r unigolyn ac nad yw'r ymarferydd wedi'i hyfforddi i gynnal asesiad galluedd, dylent geisio ffyrdd i ofyn am asesiad galluedd cyn gynted â phosibl. Gellir gwneud hyn trwy nodi unrhyw weithwyr proffesiynol sydd eisoes yn ymwneud â'r unigolyn a allai gynnal asesiad galluedd yn seiliedig ar y pryderon a godwyd.

Os daethpwyd i'r casgliad, ar ôl asesiad galluedd, bod yr oedolyn yn gwneud penderfyniad gyda galluedd i wrthod cefnogaeth ac yn gallu esbonio'r rhesymau pam, rhaid trafod risg y penderfyniad hwn gyda'r unigolyn i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau ei benderfyniad. Dylid cofnodi hyn; os yw'r risgiau'n parhau i fod yn uchel dylid ystyried atgyfeiriad ar gyfer cyfarfod Panel Ymddygiad Risg Uchel Amlasiantaeth.

Celcio

Gall rhywun sy'n celcio arddangos y canlynol:

- gorbryder difrifol wrth geisio taflu eitemau
- meddyliau a gweithredoedd obsesiynol: ofn rhedeg allan o eitem neu ei angen yn y dyfodol; gwirio'r sbwriel am wrthrychau a daflwyd ar ddamwain
- ei chael hi'n anodd taflu unrhyw beth i ffwrdd a symud eitemau o un pentwr i'r llall
- ei chael hi'n anodd categoreiddio neu drefnu eitemau
- cael anawsterau wrth wneud penderfyniadau
- cadw neu gasglu eitemau nad oes unrhyw werth ariannol iddynt, fel post sothach a bagiau cludo, neu eitemau y maent yn bwriadu eu hailddefnyddio neu eu hatgyweirio
- trallod, fel teimlo bod eiddo yn eu llethu neu yn teimlo cywilydd
- ei chael hi'n anodd rheoli tasgau bob dydd fel coginio, glanhau a thalu biliau
- dod yn or-hoff o eitemau, gwrthod gadael i unrhyw un eu cyffwrdd neu eu benthyg
- namau swyddogaethol, gan gynnwys colli lle byw, arwahanrwydd cymdeithasol, anghytgord teuluol neu briodasol, anawsterau ariannol, peryglon iechyd.

Mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod celcio yn aml yn dechrau yn ystod yr ardegau (mor gynnar â 13 neu 14), lle gellir casglu tegantau wedi torri neu bapurau ysgol. Yna

mae'r celcio yn gwaethygu gydag oedran. Amcangyfrifir bod tua 2-5% o boblogaeth oedolion y DU yn profi symptomau celcio cymhellol.

Gall celcio arwain at ansawdd bywyd is. Gall y casgliad arwain at lai o le i fyw ac yn aml mae'n cyfyngu ar fywyd preifat a theuluol, er enghraifft trwy ei gwneud hi'n amhosibl gwahodd ffrindiau yn ôl i'r tŷ ac ofn bod â chywilydd am y celcio.

Gall celcio eithafol arwain at risgiau difrifol i fywyd trwy'r posibilrwydd y bydd yr eitemau sydd wedi'u celcio yn cwmpo ar yr unigolyn a risg tân heb fodd i ddianc. Gall yr eitemau sydd wedi'u celcio hefyd atal glanhau fel mater o drefn, gan arwain at bla gan bryfed neu anifeiliaid. Weithiau mae cymaint o bethau wedi'u celcio nes ei bod yn amhosibl defnyddio ystafelloedd a gall hyn gynnwys ystafell ymolchi a chegin. Mae risgiau tân yn cynyddu pan fydd y person yn ceisio coginio wedi'i amgylchynu gan ddeunyddiau fflamadwy. Yn ogystal â pheri risg i'r unigolyn sy'n celcio, gall cymdogion hefyd gael eu rhoi mewn perygl o dân a phlâu. Pan fydd yr unigolyn ag anhwylder celcio yn rhan o deulu, mae bywyd teuluol arferol yn aml yn cael ei amharu, a gall plant ddioddef niwed o ddod yn ynysig yn gymdeithasol neu heb unman i storio eu heiddo eu hunain neu wneud gwaith cartref.

Weithiau gall celcio fod yn salwch a elwir yn 'anhwylder celcio' fel y disgrifir gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mae pobl sy'n celcio yn aml wedi dioddef trawma neu golledion yn eu bywyd sy'n arwain at orbryder, iselder ysbryd ac ymddygiadau obsesiynol/cymhellol. Mae'r person yn datblygu ymlyniad emosiynol eithafol i'r eitemau sydd wedi'u celcio ac efallai y bydd angen mewnbwn arno gan wasanaethau iechyd meddwl i fynd i'r afael â hyn.

Gall rhai pobl sy'n celcio wneud hynny oherwydd eu bod yn profi dirywiad gwybyddol trwy dementia neu anhwylder arall sy'n eu hatal rhag gallu rheoli a thafllu eiddo. Mae'n bwysig dod i wybod am hanes i sefydlu a yw'r anhwylder celcio yn hirsefydlog ac yn gysylltiedig ag anhwylder seicolegol neu a yw'n gysylltiedig â cholli galluedd gwybyddol neu anabledd arall. Bydd y rheswm dros yr ymddygiad celcio yn helpu i lywio'r ffyrdd gorau o ymyrryd.

Bydd gan lawer o bobl sy'n celcio alluedd o ran gwneud penderfyniadau ynghylch y celcio ac yn aml byddant yn cael eu rhwygo rhwng eisiau cael gwell ansawdd bywyd ac anallu yn seicolegol ac yn emosiynol i ollwng gafael ar yr eiddo. Er mwyn cefnogi unigolyn ag anhwylder celcio, efallai y bydd angen anogaeth amyneddgar ynghyd ag ymyriadau therapiwtig posibl fel cwnsela.

Mewn rhai achosion, gall cefnogaeth gan wasanaethau thacluso a chlririo helpu ond anaml y bydd hyn yn llwyddiannus yn y tymor hir oni bai ei fod yn cael ei wneud yn sensitif gyda chydweithrediad a chytundeb yr unigolyn sy'n celcio. Os nad yw hynny'n digwydd, gall ychwanegu at y trawma a dwysáu'r angen i ddechrau casglu eto.

4.2 Cyswllt cychwynnol

Gall nifer o wahanol ffynonellau godi pryderon ynghylch pobl sy'n hunan-esgeuluso, gan gynnwys aelodau teulu pryderus neu gymdogion a allai godi rhybudd trwy'r cyngor. Gall sefydliadau gwirfoddol neu eglwysi a grwpiau ffydd, sydd eisoes yn cefnogi unigolyn ddod yn ymwybodol o bryderon hunan-esgeulustod. Gall asiantaethau statudol eraill hefyd godi rhybuddion, fel yr Ambiwylans, y Gwasanaeth Tân neu ddarparwyr iechyd gan gynnwys meddygon teulu, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau dibyniaeth a staff ysbytai. Mae darparwyr tai hefyd yn aml yn ddeiliaid allweddol gwybodaeth bwysig am bobl sy'n hunan-esgeuluso ac efallai mai nhw fydd y cyntaf i godi pryderon difrifol am denant.

4.3 Eiriolaeth a chefnogaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol drefnu i eiriolwr proffesiynol annibynnol gael ei ddarparu pan all person oresgyn y rhwystr(au) i gymryd rhan lawn yn yr asesiad, cynllunio gofal a chefnogaeth a phrosesau adolygu a diogelu gyda chymorth unigolyn priodol yn unig, ond nid oes unigolyn priodol ar gael.

Mae cymryd rhan yn llawn yn galluogi'r unigolyn i fynegi neu gael rhywun arall i gyfleu ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried; eu bod yn deall eu hawliau; y broses benderfynu; beth sy'n bwysig iddyn nhw; y canlyniadau llesiant personol y maent am eu cyflawni; y rhwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny, a'r opsiynau a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt.

Er nad yw'r SSWBA yn eglur o ran eiriolaeth i'r rhai sy'n dangos ymddygiadau Risg Uchel fel hunan-esgeulustod neu gelcio, dylid ystyried a chynnig hyn lle bo hynny'n briodol.

Efallai na fydd pobl sy'n hunan-esgeuluso neu'n celcio yn cytuno i ymgysylltu ag eiriolwr fel yr amharodrwydd a ddangoswyd ganddynt i gytuno i ymgysylltu ag unrhyw weithiwr proffesiynol arall. Fodd bynnag, dylid ystyried a chadw mewn cof yr angen am eiriolaeth. Mae hyn yn arbennig o wir os gall sefyllfa'r unigolyn arwain at sancsiynau, er enghraifft os yw'r landlord yn ceisio gorchymyn meddiant oherwydd cyflwr anniogel yr eiddo.

4.4 Sut alla i ymyrryd mewn achosion o ymddygiad risg uchel/hunan-esgeulustod/celcio?

Mewn achosion o ymddygiadau risg uchel fel hunan-esgeulustod, y cam gweithredu cyntaf fyddai gweithio ochr yn ochr â pherson i'w rymuso i newid ei sefyllfa. Fodd bynnag, mae pobl sydd mewn sefyllfaoedd o'r fath yn aml yn amheus o awdurdod a gall ennill ymddiriedaeth a chydsyniad i gefnogi gymryd amser.

- Dylid ymdrechu i adeiladu a chynnal perthnasoedd cefnogol y gellir negodi gwasanaethau yn seiliedig arnynt ymhen amser. Mae hyn yn cynnwys dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gwrando ar farn unigolyn am ei amgylchiadau ac yn ceisio caniatâd gwybodus lle bo hynny'n bosibl cyn unrhyw ymyrraeth.
- Mae meithrin perthnasoedd da yn allweddol i gynnal y math o gyswllt a all alluogi derbyn ymyriadau gydag amser, a monitro'r galluedd i wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig nodi bod dull graddol o sicrhau gwelliannau yn iechyd, llesiant a chyflwr cartref unigolyn yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus nag ymgais i sicrhau newid sylweddol yn sydyn, a dyna sut y gall yr oedolyn ei ganfod.
- Yn aml, mae'n well mynd i'r afael â phryderon ynghylch hunan-esgeulustod gan wahanol wasanaethau sy'n dod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion. Mae gweithredoedd cydgysylltiedig gan swyddogion tai, gwasanaethau iechyd meddwl, meddygon teulu a nyrsys ardal, timau gwaith cymdeithasol, yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus eraill ac aelodau o'r teulu wedi arwain at ganlyniadau gwell i unigolion.
- Mae ymchwil yn cefnogi gwerth ymyriadau i gefnogi tasgau byw arferol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw ymyriadau glanhau ar eu pennau eu hunain, lle mae amodau cartref yn peri pryder, mor effeithiol yn y tymor hwy. Felly dylent ddigwydd fel rhan o gynllun amlasiantaethol integredig.
- Gan fod hunan-esgeulustod yn aml yn gysylltiedig ag anabledd a gweithrediad corfforol gwael, yn aml maes allweddol ar gyfer ymyrraeth yw cymorth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd, o baratoi a bwyta bwyd i ddefnyddio cyfleusterau toiled.
- Gall yr ystod o ymyriadau gynnwys naill ai therapi galwedigaethol i oedolion gan y gwasanaeth Iechyd neu Awdurdod Lleol, gofal cartref, gwasanaethau iechyd ac iechyd yr amgylchedd a chyingor budd-dal lles.
- Pan na all asiantaethau ymgysylltu â'r unigolyn a'i gael i dderbyn bod angen gweithredu gwasanaethau i leihau neu gael gwared ar risgiau sy'n deillio o'r hunan-esgeulustod, dylid cofnodi'r rhesymau dros hyn yn llawn a'u cadw ar gofnod achos yr unigolyn, gyda chofnod llawn o'r ymdrechion a champau gweithredu gan yr asiantaethau i gynorthwyo'r person.
- Dylai'r unigolyn, y gofalwr neu'r eiriolwr gael gwybod yn llawn am y gwasanaethau a gynigir a'r rhesymau pam na weithredwyd y gwasanaethau. Mae angen ei gwneud yn glir y gall yr unigolyn gysylltu â gwasanaethau ar unrhyw adeg yn y dyfodol i gael cefnogaeth.

- Fodd bynnag, lle mae'r risgiau'n uchel, dylid gwneud trefniadau hefyd ar gyfer monitro parhaus a, lle bo hynny'n briodol, gwneud cyswllt rhagweithiol i sicrhau bod anghenion, risgiau a hawliau'r unigolyn yn cael eu hystyried yn llawn ac i fonitro unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau.
- Mewn achosion o gasglu anifeiliaid, bydd angen i'r ymarferydd ystyried effaith yr ymddygiad hwn yn ofalus. Lle mae effaith ddifrifol ar naill ai iechyd a llesiant yr oedolyn, llesiant yr anifeiliaid, neu iechyd a diogelwch eraill, dylai'r ymarferydd gydweithredu â'r RSPCA a swyddogion iechyd y cyhoedd. Er y gellir priodoli'r rheswm dros gasglu anifeiliaid i lawer o resymau, gan gynnwys gwneud iawn am ddiffyg cwmniaeth ddynol a'r cwmni y gall yr anifeiliaid ei ddarparu, mae'n rhaid ystyried llesiant yr anifeiliaid a'r peryglon posibl i iechyd y cyhoedd.
- Pan fo amodau'r cartref yn y fath fodd fel eu bod yn ymddangos yn risg ddifrifol i iechyd yr oedolyn o adeiladau budr neu fermin, neu os yw eu hamodau byw yn dod yn niwsans i gymdogion/yn effeithio ar eu mwynhad o'u heiddo, dylid gofyn am gyngor gan lechyd yr Amgylchedd a dylid gweithio ar y cyd.
- Os yw'r ymarferydd o'r farn y gallai fod risg o dân o ganlyniad i'r celcio, dylent ofyn am gyngor gan y gwasanaeth tân lleol. Gall Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddarparu Ymweliad Diogel ac Iach am ddim a rhoi cyngor ar gadw llwybrau allanfa yn glir. Byddant yn darparu amrywiaeth o offer diogelwch gan gynnwys larymau mwg a gwres.

4.5 Panel Ymddygiad Risg Uchel Amlsiantaeth

Mae Gweithdrefn Ymddygiad Risg Uchel Amlsiantaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn darparu llwybr i ymarferwyr uwchgyfeirio achosion o bryder sylweddol i'r Panel Ymddygiad Risg Uchel Amlsiantaeth (MAHRBP). Dylid cyfeirio at Weithdrefnau Ymddygiad Risg Uchel Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r siart llif yn Atodiad 3.

5 Cyswllt

Dylid trosglwyddo pob ymholiad cyffredinol ynghylch y canllaw hwn i Reolwr Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru trwy CWMPAS@pembrokeshire.gov.uk.

Estynnir cydnabyddiaeth a diolch i'r Byrddau Diogelu Oedolion niferus y mae'r canllaw ymarfer hwn yn seiliedig arnynt.

Atodiad 1 - Fframweithiau cyfreithiol

Asiantaeth	Pŵer Cyfreithiol A Gweithrediad	Amgylchiadau sy'n Gofyn am Ymyrraeth
Amgylchedd		
Iechyd yr Amgylchedd	Hysbysiad Gorfodi (s.83-85 PHA 1936) Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo gydymffurfio. Gall methu â gwneud hynny arwain at y cyngor yn cyflawni gofynion, ar ei gost ei hun; er y gallant adennill treuliau yr aethpwyd iddynt yn rhesymol	Cyflwr budr neu aflan yr adeilad (eitemau y mae angen eu glanhau neu eu dinistrio) Atal anaf neu berygl i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo. (Pob deiliadaeth gan gynnwys Lesddeiliaid/Rhydd-ddeiliaid/Eiddo Gwag)
Iechyd yr Amgylchedd	Hysbysiad Gwaredu Sbwriel (Adran 92a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) Iechyd yr Amgylchedd i wneud asesiad i weld ai'r opsiwn hwn yw'r mwyaf addas.	Lle mae tir sy'n agored i aer yn cael ei ddifwyno gan sbwriel, sy'n niweidiol i amwynder yr ardal. Enghraifft fyddai lle mae eiddo wedi'i gelcio wedi gorlifo i ardd.
Tai	Mae Deddf Tai 2004 a rheoliadau cysylltiedig yn sefydlu'r System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS) fel y modd rhagnodedig lle mae awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn asesu difrifoldeb peryglon i iechyd a diogelwch sy'n deillio o ddiffygion yn yr annedd.	Mae'r canllaw gweithredu yn rhestru 29 o beryglon posibl o dan bedwar proffil peryglon, gan gynnwys peryglon y gellir eu dosbarthu naill ai fel Peryglon Categori 1 neu Gategori 2. Gall gweithredu fod ar ffurf Hysbysiad Gwella, Hysbysiad Gwahardd neu Hysbysiad Ymwybyddiaeth o Berygl.
Iechyd yr Amgylchedd	Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949 Adran 4 Os yw perchennog neu ddeiliad yn methu â chymryd camau i gael gwared â phla o fewn yr amser a bennir gan yr awdurdod lleol, gall yr awdurdod ei hun ymgymryd â'r gwaith ac adennill y gost yr aethpwyd iddi.	Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau bod yr holl dir yn ei ardal yn rhydd o lygod mawr a llygod. Defnyddir hwn lle mae tir yn agored i aer, er enghraifft llawer iawn o sbwriel mewn gardd a allai ddenu plâu.
Diogelwch Eiddo		
Gwasanaeth Tân ac Achub	Pwerau Mynediad Erthygl 27.(1) Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 Pryderon ynghylch diogelwch yr eiddo.	Os bydd unrhyw broblemau yn ymestyn i rannau cyffredin o adeilad y credir eu bod yn dod o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân, yn rhinwedd y Gorchymyn gall FRS weithredu trwy archwilio'r fangre
Tai	Mae Deddf Adeiladu 1984, a76, yn darparu'r pŵer i ddelio ag adeiladau diffygiol ac adeiladau adfeiliedig a adfeiliedig.	Mae'n darparu'r pŵer i ddelio ag adeilad diffygiol, adfail ac adeilad adfeiliedig, adeilad lle mae cyflymder yn bwysig.

Mynediad i Eiddo		
lechyd yr Amgylchedd	Pŵer Mynediant/ Gwarant (s.287 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936) Cael mynediad ar gyfer archwilio/cyflawni'r gwaith angenrheidiol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd. Presenoldeb yr heddlu yn ofynnol ar gyfer mynediad gorfodol	Person yn peidio ag ymgysylltu. I gael mynediad ar gyfer archwilio/cyflawni gwaith angenrheidiol (Pob deiliadaeth gan gynnwys Lesddeiliaid/ Rhydd-ddeiliaid)
lechyd yr Amgylchedd	Pŵer Mynediant/ Gwarant(s.287 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936) Swyddog lechyd yr Amgylchedd i wneud cais i'r Ynad. Bydd angen rheswm da dros orfodi mynediad (casglu tystiolaeth pob plaid) Angen presenoldeb yr heddlu	Person yn peidio ag ymgysylltu/wedi gwrthod mynediad yn flaenorol. Arolygu ac archwilio (Pob deiliadaeth gan gynnwys Lesddeiliaid/ Rhydd-ddeiliaid)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	Deddf Iechyd Meddwl 1983 Adran 13 (dyletswydd i drefnu asesiad) Deddf Iechyd Meddwl 1983 Adran 135(1) (symud unigolyn) Yn darparu ar gyfer heddwasi fynd i mewn i adeilad preifat, os oes angen trwy rym, i chwilio am, ac os yw'n briodol, symud person i le diogel os yw rhai amodau'n cael eu bodloni. Rhaid i'r heddwasi ddod gyda Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) a meddyg. DS. Man Diogel fel arfer yw'r uned iechyd meddwl, ond gall fod yn Adran Achosion Brys ysbyty cyffredinol, neu unrhyw le sy'n barod i weithredu felly.	Rhaid gosod tystiolaeth gerbron ynad gan AMHP bod achos rhesymol i gredu bod person yn dioddef o anhwylder meddwl, a'i fod <ul style="list-style-type: none"> • yn cael ei drin yn wael neu • yn cael ei esgeuluso, neu • yn cael ei gadw heblaw o dan reolaeth briodol, neu • Os yn byw ar ei ben ei hun yn methu gofalu am ei hun, a bod y weithred yn ymateb cymesur i'r risgiau dan sylw.
Heddlu	Pŵer Mynediad (s17(1)(e) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984) Nid yw'r person y tu mewn i'r eiddo yn ymateb i gyswllt allanol ac mae tystiolaeth o berygl. Pŵer i fynd i mewn i adeilad heb warant	Yn rhoi pŵer i fynd i mewn i adeilad heb warant er mwyn achub bywyd neu atal difrod difrifol i eiddo.
Niwsans i eraill		
Tai	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (gorchmynion/gwaharddebau) Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (erlyn)	Mae pwerau'n bodoli i fynd i'r afael ag ymddygiad fel hunan-esgeulustod sy'n niwsans ac yn achosi annifyrrwch difrifol i eraill.

Tai	<p>Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Plismona 2014 Gellir cael gwaharddeb sifil gan y Llys Sirol os yw'r llys yn fodlon bod y person y ceisir y waharddeb yn ei erbyn wedi ymddwyn neu'n bygwth ymddwyn yn wrthgymdeithasol, neu os yw'r llys yn ei ystyried yn gyfiawn ac yn gyfleus i roi'r waharddeb at ddibenion atal yr unigolyn rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol.</p>	<p>Ymddygiad gan y tenant sy'n gallu achosi niwsans neu annifyrrwch sy'n gysylltiedig â thai i unrhyw berson. Ystyr "cysylltiedig â thai" yw "ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â swyddogaethau rheoli tai darparwr tai neu awdurdod lleol</p>
Lles Anifeiliaid		
<p>Asiantaethau Lles Anifeiliaid fel yr RSPCA/Awdurdod Lleol e.e. Deddf Iechyd yr Amgylchedd/DEFRA</p>	<p>Deddf Lles Anifeiliaid 2006 Troseddau (Rhybudd gwella) Mae ddysg i'r perchennog yn gam cychwynnol a ffefrir, Cyflwyno Hysbysiad gwella a'i fonitro. Os na chydymffurfir gall arwain at ddirwy neu garchar</p>	<p>Achosion o gam-drin/esgeuluso anifeiliaid. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud nid yn unig yn erbyn y gyfraith i fod yn greulon tuag at anifail, ond bod yn rhaid i berson sicrhau bod anghenion lles yr anifeiliaid yn cael eu diwallu. Gweler hefyd: http://www.defra.gov.uk/wildlife/pets/.</p>
Erail		
<p>Pob asiantaeth</p>	<p>Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau a chyfathrebiadau yn Gymraeg os mai dewis yr unigolyn yw hwn. Nid yw'r Gymraeg i'w thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Methu â darparu ar gyfer dymuniadau unigolyn i gyfathrebu a derbyn gwasanaethau yn Gymraeg.</p>

Atodiad 2 – Deddfwriaeth Allweddol (Cymru)

- Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016 yn cynrychioli'r diwygiad gofal a chymorth mwyaf sylweddol mewn mwy na 60 mlynedd, gan alluogi pobl a'u gofalgwyr i reoli eu gofal a'u cefnogaeth.
- Mae **Deddf Plant 1989** yn dyrannu dyletswyddau i awdurdodau lleol, llysoedd, rhieni ac asiantaethau eraill yn y Deyrnas Unedig, i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu a bod eu lles yn cael ei hyrwyddo. Mae'n canolbwyntio ar y syniad mai'r plant sy'n derbyn y gofal gorau yn eu teuluoedd eu hunain; fodd bynnag, mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer achosion pan nad yw rhieni a theuluoedd yn cydweithredu â chyrrff statudol.
- **Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg**
- **Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg**
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019**
- Mae **Deddf Hawliau Dynol 1998** yn nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU hawl i'w cael. Mae'n ymgorffori'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yng nghyfraith ddomestig Prydain.
- Mae **Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 a 1961** yn cynnwys darpariaeth i ddelio ag adeiladau y mae fermin ynddynt.
- Mae **Deddf Tai 2004** yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod Lleol archwilio eiddo i nodi unrhyw beryglon (gan gynnwys peryglon strwythurol) a fyddai'n debygol o achosi niwed ac i gymryd camau gorfodi lle bo angen i leihau'r risg i niwed.
- **Deddf Tai (Cymru) 2014.** Mae'r Ddeddf yn eang ac yn cynnwys tai preifat a rhai ar rent gan gynnwys tenantiaid safonol awdurdodau lleol
- Cyflwynodd **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 (RRO)** bŵer cyffredinol newydd sy'n galluogi awdurdodau tai lleol i ddarparu cymorth ar gyfer adnewyddu tai gyda llawer mwy o hyblygrwydd i ALLau ddyfeisio polisi i ddelio â thai mewn cyflwr gwael, o ran yr offer polisi sydd ar gael a'u gallu i weithio mewn partneriaeth ag eraill.
- **Deddf Iechyd Meddwl 1983** yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag asesu, triniaeth a hawliau pobl ag anhwylder iechyd meddwl.
- **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** Prif bwrpas yr MCA yw hyrwyddo a

diogelu'r broses o wneud penderfyniadau o fewn fframwaith cyfreithiol. Mae'n gwneud hyn mewn dwy ffordd:

- trwy rymuso pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain lle bynnag y bo modd, a thrwy amddiffyn pobl sydd heb alluedd trwy ddarparu fframwaith hyblyg sy'n gosod unigolion wrth galon y broses benderfynu; a
 - trwy ganiatáu i bobl gynllunio ymlaen llaw am amser yn y dyfodol pan fyddent efallai heb y galluedd, am nifer o resymau.
- Mae **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** yn caniatáu i awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atal mewn perthynas ag unrhyw fangre mewn cyflwr sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans.
 - Mae **Deddf Adeiladu 1984** yn galluogi cymryd camau brys i unioni diffygion mewn mangre sydd mewn cyflwr sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans.
 - Mae **Deddf Atal Niwed gan Blâu 1949** yn gosod dyletswydd ar y cyngor i weithredu yn erbyn perchnogion/deiliaid tir lle mae tystiolaeth o blâu.
 - **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984** Mae adran 46 yn gosod dyletswydd ar Awdurdod Lleol i gladdu neu amlosgi corff unrhyw berson a geir yn farw yn eu hardal mewn unrhyw achos lle mae'n ymddangos nad oes unrhyw drefniadau addas ar gyfer gwaredu'r corff wedi'u gwneud. Gellir adennill costau o'r ystâd neu unrhyw berson sy'n atebol i gynnal a chadw'r ymadawedig.
 - Mae **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014** yn cynnwys y camau y gall awdurdodau perthnasol eu cymryd i wneud cais am orchmynion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
 - **Deddf Diogelu Data 2018**, sy'n llywodraethu sut mae gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio a'i rhannu gan sefydliadau. Rhaid i sefydliadau ddangos eu bod yn defnyddio, rhannu a storio gwybodaeth yn gyfreithlon. Yn ogystal, ni ddylid storio gwybodaeth am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol.

Atodiad 3 – Siart Llif Ymddygiad Risg Uchel

Os ydych chi'n ystyried bod yr unigolyn yn oedolyn mewn perygl ar unrhyw adeg o'r broses, rhaid atgyfeirio i'r Tîm Diogelu Oedolion.

Pryderon a nodwyd sy'n ymwneud ag ymddygiad peryglus, hunan-esgeulustod neu gelcio Cyfeirio ymarferedd at Bolisi/Gweithdrefn Ymddygiad Risg Uchel (gan gynnwys Hunan-

